***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 1156 (Cy.139)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu'r Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) (Rhif 2) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *26 Ebrill 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *27 Ebrill 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *18 Mai 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22 a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu'r Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) (Rhif 2) 2012.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 18 Mai 2012 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio

**2.** Mae Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu'r Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011(**3**) wedi eu diwygio yn unol â'r rheoliadau canlynol.

**3.** Yn rheoliad 2(1), yn y man priodol, mewnosoder—

> "ystyr "carcharor" ("*prisoner*") yw person sy'n bwrw dedfryd mewn carchar yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys person sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn sefydliad troseddwyr ifanc;

(**1**) 1998 p.30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21), adran 146 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p.1), Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p.14), adran 147, Deddf Addysg Uwch 2004 (p.8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7, a Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p.22), adran 257. Gweler adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i gael y diffiniad o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adran (2)(a), (c), (j) neu (k), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 a Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1833 (Cy.149) (C.79)) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/1660 (Cy.159) (C.56)). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30(1) a 30(2)(c) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2011/886 (Cy.130) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/1978 (Cy.218) ac O.S. 2012/14 (Cy.5).

ystyr "carcharor cymwys" ("*eligible prisoner*") yw carcharor—

(a) sy'n dechrau'r cwrs presennol ar neu ar ôl 1 Medi 2012;

(b) sydd wedi ei awdurdodi gan Lywodraethwr neu Gyfarwyddwr y carchar neu awdurdod priodol arall i astudio'r cwrs presennol;

(c) y mae ei ddyddiad rhyddhau cynharaf o fewn 6 mlynedd i ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs presennol;

(ch) nad yw wedi trosglwyddo i'r cwrs presennol o dan reoliad 8 o gwrs sy'n dechrau cyn 1 Medi 2012; a

(d) nad yw'n dechrau cwrs penben ar neu ar ôl 1 Medi 2012;

ystyr "cwrs dysgu o bell" ("*distance learning course*") yw cwrs amser-llawn sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2012 ac nad yw'r sefydliad sy'n darparu'r cwrs yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyriwr sy'n ymgymryd â'r cwrs fod yn bresennol arno, ac eithrio er mwyn bodloni unrhyw ofyniad a osodir gan y sefydliad i fod yn bresennol mewn unrhyw sefydliad—

(a) at ddibenion cofrestru, ymrestru neu unrhyw arholiad; neu

(b) ar benwythnos neu yn ystod unrhyw wyliau;".

**4.** Ar ôl rheoliad 4(11) mewnosoder—

"(12) Yn ddarostyngedig i baragraff (13), ni fydd carcharor sy'n dechrau'r cwrs presennol ar neu ar ôl 1 Medi 2012 yn fyfyriwr cymwys oni bai—

(a) ei fod yn garcharor cymwys;

(b) ei fod yn fyfyriwr cymwys sydd wedi trosglwyddo i'r cwrs presennol ar neu ar ôl 1 Medi 2012 o dan reoliad 8 o gwrs sy'n dechrau cyn 1 Medi 2012; neu

(c) bod y cwrs presennol yn gwrs penben.

(13) Nid yw paragraff (12) yn gymwys o ran blwyddyn academaidd pryd y mae'r myfyriwr yn mynd i'r carchar neu'n cael ei ryddhau o'r carchar."

**5.** Yn rheoliad 5(1)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (b)(ii) hepgorer "neu";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (b)(iii) mewnosoder "neu";

(c) ar ôl is-baragraff (b)(iii) mewnosoder—

"(iv) cwrs dysgu o bell ac eithrio cwrs y mae rheoliad 74(5) yn gymwys iddo;";

(d) ar ddiwedd is-baragraff (ch) hepgorer "a";

(e) ar ddiwedd is-baragraff (d) yn lle "." rhodder "; ac"; ac

(f) ar ôl is-baragraff (d) mewnosoder—

"(dd) ar gyfer cwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2012 ac sy'n dod o fewn paragraffau 1, 2, 4, 6, 7 neu 8 o Atodlen 2, os yw'n gwrs sy'n arwain at ddyfarniad sydd wedi ei roi neu sydd i'w roi gan gorff sy'n dod o fewn adran 214(2)(a) neu (b) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**4**)."

**6.** Yn rheoliad 6(9), yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) yn achos myfyriwr cymwys na chwblhaodd yn llwyddiannus y cwrs blaenorol diweddaraf am resymau personol anorchfygol—

(i) bod un flwyddyn ychwanegol yn cael ei hadio; a

(**4**) 1988 p.40; diwygiwyd adran 214(2) gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p.13), adran 93 ac Atodlen 8.

(ii) caniateir i flwyddyn ychwanegol arall gael ei hadio os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny ar ôl rhoi sylw i'r rhesymau hynny."

**7.** Ar ôl rheoliad 13(4) mewnosoder—

"(5) Nid oes gan fyfyriwr cymwys sy'n ymgymryd â chwrs dysgu o bell hawl i gael unrhyw gymorth at ffioedd o dan y Rhan hon oni bai bod Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y myfyriwr yn ymgymryd â'r cwrs yng Nghymru."

**8.** Yn rheoliad 25—

(a) ar ôl y geiriau "myfyrwyr anabl" ym mharagraff (13) mewnosoder "sy'n daladwy mewn cysylltiad â chwrs dynodedig sy'n dechrau cyn 1 Medi 2012"; a

(b) ar ôl paragraff (15) mewnosoder—

"(16) Nid oes gan fyfyriwr cymwys sy'n ymgymryd â chwrs dysgu o bell hawl i gael unrhyw grant o dan y Rhan hon ac eithrio grant at gostau byw myfyrwyr anabl yn unol â rheoliad 26."

**9.** Yn rheoliad 26—

(a) ar ôl y geiriau "gwrs dynodedig" ym mharagraff (1) mewnosoder "neu mewn cysylltiad â chwrs dynodedig y mae'n ymgymryd ag ef"; a

(b) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

"(6) Nid oes gan fyfyriwr cymwys hawl i gael grant at gostau byw myfyrwyr anabl o dan y rheoliad hwn mewn perthynas â chwrs dysgu o bell oni bai bod Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y myfyriwr yn ymgymryd â'r cwrs yng Nghymru."

**10.** Ar ôl rheoliad 46(9) mewnosoder—

"(10) Nid oes gan fyfyriwr cymwys hawl i gael benthyciad at gostau byw o dan y Rhan hon os yw'n ymgymryd â chwrs dysgu o bell."

**11.**—(1) Yn rheoliad 74(2)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (c) hepgorer "ac";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (ch), yn lle "." rhodder "; a"; ac

(c) ar ôl is-baragraff (ch) mewnosoder—

"(d) yn ddarostyngedig i baragraff (5), dechreuodd y cwrs cyn 1 Medi 2012."

(2) Ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

"(5) Mae cwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2012 yn gwrs dysgu o bell dynodedig—

(a) os yw myfyriwr yn trosglwyddo i'r cwrs hwnnw yn unol â rheoliad 83 o gwrs dysgu o bell dynodedig blaenorol a ddechreuodd cyn 1 Medi 2012; a

(b) pe byddai'r cwrs hwnnw fel arall yn gwrs dynodedig at ddibenion rheoliad 5."

**12.** Yn rheoliad 89(3)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (ch) mewnosoder "neu";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (d), yn lle "; neu" rhodder "."; ac

(c) hepgorer is-baragraff (dd).

**13.**—(1) Yn rheoliad 105(3), yn lle'r gair "chwe" rhodder "naw".

(2) Yn rheoliad 105(4)(a), yn lle'r gair "chwe" rhodder "naw".

**14.** Ar ôl paragraff 1(6) o Ran 1 o Atodlen 1 mewnosoder—

"(7) At ddibenion yr Atodlen hon, ystyrir bod carcharor cymwys yn preswylio fel arfer yn y rhan o'r Deyrnas Unedig lle yr oedd y carcharor yn preswylio cyn cael ei ddedfrydu."

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

26 Ebrill 2012

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu'r Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011 ("y Prif Reoliadau") yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig mewn perthynas â blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2012.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Prif Reoliadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu tri therm newydd at restr y termau a ddiffinnir yn y Prif Reoliadau. Mae'r term "cwrs dysgu o bell" yn cyfeirio at gwrs dysgu o bell amser-llawn sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2012. Mae "carcharor cymwys" yn garcharor sy'n bodloni gofynion cymhwystra penodol a nodir yn y diffiniad, gan gynnwys cael ei awdurdodi i astudio cwrs addysg uwch sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2012. Mae'r term "carcharor" yn cyfeirio at berson sy'n bwrw dedfryd mewn carchar yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys person sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn sefydliad troseddwyr ifanc.

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 4 o'r Prif Reoliadau. Mae'r diwygiad hwn yn sicrhau, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol, mai dim ond carcharorion sy'n garcharorion cymwys fydd yn gallu cael cymorth ariannol o dan y Prif Reoliadau mewn perthynas â chyrsiau addysg uwch sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2012.

Mae rheoliad 5 yn diwygio rheoliad 5 o'r Prif Reoliadau drwy ychwanegu at y meini prawf ar gyfer dynodi cyrsiau o dan y Prif Reoliadau. Ni fydd y diwygiad hwn yn gymwys ond i ddynodi cyrsiau sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2012.

Mae rheoliad 6 yn diwygio rheoliad 6 o'r Prif Reoliadau sy'n ymwneud â chyfnod cymhwystra myfyriwr cymwys o dan y Prif Reoliadau. Effaith y diwygiad hwn yn achos myfyriwr sydd wedi methu â chwblhau cwrs blaenorol am resymau personol anorchfygol, yw caniatáu, mewn rhai amgylchiadau, i flwyddyn ychwanegol gael ei hychwanegu at ei gyfnod cymhwystra o dan y Prif Reoliadau.

Mae rheoliad 7 yn diwygio rheoliad 13 o'r Prif Reoliadau. Mae'r diwygiad hwn yn cadarnhau na chaniateir i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau dysgu o bell amser-llawn ar neu ar ôl 1 Medi 2012 gael cymorth at ffioedd o dan y Prif Reoliadau oni bai bod Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn ymgymryd â'r cwrs yng Nghymru.

Mae rheoliad 8 yn diwygio rheoliad 25 o'r Prif Reoliadau sy'n gwneud darpariaeth am y grantiau sydd ar gael at gostau byw o dan y Prif Reoliadau. Mae'r diwygiad hwn yn darparu na fydd grant at gostau byw myfyrwyr anabl ar gael ond i garcharorion a ddechreuodd gyrsiau addysg uwch cyn 1 Medi 2012. Mae hefyd yn darparu na fydd hawlogaeth gan fyfyrwyr sy'n dechrau cyrsiau dysgu o bell amser-llawn ar neu ar ôl y dyddiad hwn i gael unrhyw grant at gostau byw o dan y Prif Reoliadau ac eithrio grant at gostau byw myfyrwyr anabl.

Mae rheoliad 9 yn diwygio rheoliad 26 o'r Prif Reoliadau sy'n ymwneud â grantiau at gostau byw myfyrwyr anabl mewn perthynas â chyrsiau amser-llawn. Mae'r diwygiad hwn yn sicrhau bod y grantiau hyn ar gael i fyfyrwyr sy'n dechrau cyrsiau dysgu o bell amser-llawn ar neu ar ôl 1 Medi 2012.

Mae rheoliad 10 yn diwygio rheoliad 46 o'r Prif Reoliadau i gadarnhau nad oes benthyciadau at gostau byw o dan y Prif Reoliadau ar gael mewn perthynas â chyrsiau dysgu o bell amser-llawn sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2012.

Mae rheoliad 11 yn diwygio rheoliad 74 o'r Prif Reoliadau i gadarnhau na chaniateir i gyrsiau dysgu o bell amser-llawn, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol, fod yn gyrsiau dysgu o bell dynodedig o dan y Prif Reoliadau oni bai eu bod wedi dechrau cyn 1 Medi 2012.

Mae rheoliad 12 yn diwygio rheoliad 89 o'r Prif Reoliadau er mwyn caniatáu i fyfyrwyr rhan-amser fod â hawl i gael cymorth ariannol o dan y rheoliadau hynny mewn perthynas â chyrsiau rhan-amser sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2012.

Mae rheoliad 13 yn diwygio rheoliad 105 o'r Prif Reoliadau drwy ymestyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno ceisiadau am gymorth ariannol o dan y rheoliadau hynny mewn perthynas â chyrsiau rhan-amser.

Mae rheoliad 14 yn mewnosod darpariaeth ychwanegol yn Atodlen 1 i'r Prif Reoliadau. Mae Atodlen 1 yn nodi'r categorïau amrywiol o fyfyrwyr cymwys at ddibenion y Prif Reoliadau.